

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. NOS LUN 27AIN O HYDREF 2014 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jill Evans (Cadeirydd), Falmai Evans, Iona Edwards-Jones, Gwennan Hughes, Hywel Davies, Iwan Jones a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Philip Williams, Elfed Williams, Barri Evans, Stan Williams ar Gynhorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Fedi 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bydd yr Adran yn trwsio unrhyw dyllau yn ffyrdd sydd angen eu trwsio.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc atgoffa'r Adran Briffyrdd i symud y Safle Bws wrth Gapel Saron tuag at Maes-yr-Yrfa yn Saron.

4. DATBLYGIAD FFERM WYNT YN PANT-Y-MAEN GER NANTGLYN.

Dosbarthwyd y Clerc manylion e-byst (yn cynnwys mapiau) i'r aelodau gan y Datblygwr a'r Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys Y Cynhorydd Sir Joe Welch.

Y prif eitemau a thrafodwyd ynglŷn ar ddatblygiad oedd:-

A. Nid oedd yr aelodau yn hapus fod Mr Joshua Brown o'r Datblygwyr (Natural Power) wedi gwrthod mynychu'r cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrhaeadr unwaith eto.

B. Disgwylir cyfraniad o'r £100,000 tal cymunedol gan y datblygwyr i'r gymuned.

C. Mae Mr David Jones, Aelod Seneddol dros Orllewin Clwyd, wedi cytuno mynychu cyfarfod cyhoeddus ynglŷn ar ddatblygiad.

D. Gan fod Cyngor Sir Conwy wedi mabwysiadu polisi o beidio caniatáu polion trydan yn y dyfodol penderfynwyd dylai Cyngor Sir Ddinbych addasu'r polisi yma hefyd.

E. Sylwadau'r o'r effaith gronnus a llygred sŵn o'r datblygiad at Gyngor Sir Ddinbych.

5. CYLLID.

Datganiad Banc - £14,550.00.

6. CAIS CYNLLUNIO.

Trosiad o adeilad allanol i ddau breswyl yn Y Grange, Prion - dim gwrthwynebiad.

7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd copi o'r adroddiadau canlynol gan Gyngor Sir Ddinbych:-

1. Cynigion ar gyfer y Gyllideb.

2. Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

- A. Eisiau bin baw cŵn wrth Faes Carafannau Cae'r Mynydd yn Saron.
- B. Faint o bobl sydd yn aros yn Faes Carafannau Cae'r Mynydd yn ôl y Gofrestr?
- C. Mae'r Bws Ysgol GHA yn mynd o adref i Ruthun o Brion at gyfeiriad Llanrhaeadr yn hytrach na'r cyfeiriad Dinbych.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 24ain o Dachwedd 2014 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.